Paratoadau cynnar ar gyfer Etholiad Cyffredinol nesaf Senedd y DU

Cefndir

Mae Etholiad Cyffredinol Seneddol y DU (UKPGE) yn ddigwyddiad etholiadol arwyddocaol, a gyflwynir yn aml o fewn amserlen gywasgedig. Fel y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mae gennych gyfrifoldeb personol i sicrhau y caiff yr etholiad ei weinyddu'n llwyddiannus, ac o ganlyniad, bod profiad pleidleiswyr a'r rheiny sy'n sefyll yn yr etholiad yn un cadarnhaol.

Byddwch yn gweithio i ddarparu etholiad a gynhelir yn dda fydd o dan cryn archwiliad - gan bleidleiswyr, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol, a'r cyfryngau.

Mae lefel y diddordeb yn etholiad Senedd y DU yn debygol o fod yn sylweddol. Dylech gynllunio ar gyfer y posibiliad o nifer uchel yn pleidleisio, ac ar y lleiaf dylech gymryd yn ganiataol na fydd y nifer a fydd yn pleidleisio yn llai na'r nifer a bleidleisiodd yn yr etholiadau cyfatebol diwethaf.

Wrth i'r etholiadau agosáu, bydd y cyd-destun yn parhau i ddatblygu wrth i'r ymgyrchoedd gynyddu momentwm. Bydd angen i chi fod yn barod i ymateb i ddigwyddiadau yn eich etholaeth ac yn ehangach a gall hyn gael effaith ar y broses o gynnal etholiadau'n effeithiol.

Rhaid i'r etholiad nesaf gael ei gynnal erbyn 28 Ionawr 2025 ac fe fydd yn dod â heriau a risgiau y bydd angen cynllunio ar eu cyfer a'u rheoli. Fe'i cynhelir ar ffiniau etholaethau Seneddol newydd a hwn fydd yr etholiad cenedlaethol cyntaf i'w gynnal o dan newidiadau Deddf Etholiad 2022.

Mae'n debyg y bydd yr etholiadau yn rhai caled, gyda llawer o gystadlaethau agos mewn etholaethau ar draws y DU. Gallai'r ffiniau etholaethol newydd a'r dirwedd wleidyddol esblygol olygu efallai y bydd hyn yn wir hyd yn oed mewn mannau lle bu mwyafrif mawr yn draddodiadol. O'r herwydd, gallai'r ffocws a'r amgylchiadau fod yn wahanol i unrhyw beth a brofwyd yn eich ardal o'r blaen.

Mae gofynion ID Pleidleiswyr, ymdrin â phleidleisiau post, ehangu'r etholfraint i etholwyr tramor, newidiadau i ofynion pleidlais absennol gan gynnwys y gallu i wneud cais ar-lein am rai mathau o bleidleisiau absennol, a hygyrchedd i bleidleiswyr anabl yn ychwanegu cymhlethdod at etholiad sydd eisoes yn gymhleth, gan effeithio ar ar gapasiti a gwytnwch eich staff i ddarparu etholiadau a gynhelir yn dda.

Sut gallwch chi gefnogi eich tîm etholiadau a llywio paratoadau cynnar a gwneud penderfyniadau?

Mae eich dyletswyddau fel Swyddog Canlyniadau ar wahân i'ch dyletswyddau fel swyddog llywodraeth leol. Fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) nid ydych yn gyfrifol i'r awdurdod lleol ond yn uniongyrchol atebol i'r llysoedd fel deiliad swydd statudol annibynnol. Fel y cyfryw, dylech sicrhau bod gennych yswiriant a'i fod yn gyfredol. Dylech fod yn barod i ddangos prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau cadarn os bydd unrhyw her i'r etholiad a hawliad yn erbyn y polisi yswiriant.

Er y gallwch benodi un neu fwy o bobl i gyflawni unrhyw rai neu bob un o'ch swyddogaethau fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), ni allwch ddirprwyo eich cyfrifoldeb personol dros gynnal yr etholiadau.

Eich tîm etholiadau fydd yn gweinyddu'r etholiad yn weithredol; fodd bynnag, eich rôl yw:

- gorchymyn y staff a'r adnoddau angenrheidiol i gynnal etholiadau sy'n cael eu rhedeg yn dda
- tynnu y cymorth, y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol o bob rhan o'ch awdurdod lleol eich hun
- goruchwylio y cynllunio, rheoli prosiect a rheoli risg yr etholiadau yr ydych yn gyfrifol amdanynt a chynnwys unrhyw wersi a ddysgwyd o etholiadau blaenorol
- nodi a goruchwylio unrhyw gamau sydd eu hangen i liniaru unrhyw broblemau sy'n codi
- sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n briodol i gyflawni'r rolau a ddisgwylir ohonynt
- cynorthwyo'r staff sy'n gweinyddu'r etholiad a rhoi trosolwg priodol o'u gwaith

Mae'r Etholiad Cyffredinol Senedd y DU nesaf yn debygol o gael ei gyhoeddi ar fyr rybudd. Fel y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) bydd angen i chi sicrhau eich bod yn adolygu eich cynlluniau, gallu ac adnoddau yn gyson i sicrhau y gallwch weithredu a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn gynnar. Pwrpas y ddogfen hon yw dechrau trafodaethau cynnar gyda'ch tîm etholiadau i sicrhau eich bod wedi paratoi'n dda ar gyfer yr etholiad pan gaiff ei alw ac y gallwch roi unrhyw gymorth sydd ei angen ar eich tîm. Fel y cyfryw mae'n canolbwyntio ar y meysydd lle mae'r risg uchaf yn unig; mae canllawiau mwy cynhwysfawr i'w cael yn ein canllawiau craidd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol).

Staffio

Mae recriwtio'r staff angenrheidiol i gynnal etholiadau yn dda wedi dod yn fwyfwy anodd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r newidiadau diweddar i bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrifoldeb cynyddol am staff gorsafoedd pleidleisio yn benodol, wedi golygu bod niferoedd uwch o staff yn rhoi'r gorau iddi hyd at ddiwrnod yr etholiad ei hun.

Dylech sicrhau bod agwedd cyngor gyfan yn cael ei fabwysiadu wrth gynnal yr etholiad gan gynnwys rhyddhau staff i weithio mewn gorsafoedd pleidleisio ac yn y cyfrif, a bod arbenigedd ac adnoddau mewnol gan dimau AD yn cael eu defnyddio i helpu i reoli recriwtio staff allanol.

Er mwyn cynllunio ar gyfer hyn, bydd angen i chi fod yn sicr bod eich tîm etholiadau wedi pennu eich anghenion staffio cyn gynted â phosibl er mwyn i chi allu cael yr holl adnoddau sydd eu hangen arnoch.

Dylai'r meysydd allweddol i'w cwmpasu gynnwys:

- y dadansoddiad y maent wedi'i wneud o'ch anghenion staffio – fel rhan o'r tîm craidd a staff ychwanegol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio a'r cyfrif
- y cynllun recriwtio sydd ganddynt ar waith i gael unrhyw staff ychwanegol ar adegau allweddol
- sut y bydd angen iddynt gael eich cymorth i chi ddefnyddio adnoddau mewnol i gefnogi'r gwaith o gynnal yr etholiadau
- y cynlluniau wrth gefn sydd ganddynt ar waith i reoli unrhyw broblemau o ran cael y staff sydd eu hangen arnoch
- sut a phryd y bydd hyfforddiant staff yn cael ei reoli, gan gynnwys:

- a fydd hyfforddiant yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno'n fewnol neu'n allanol ac a yw hyn yn wahanol ar gyfer rolau penodol
- sut y byddai hyn yn cael ei reoli os bydd etholiad cyffredinol Senedd y DU brys heb fawr o rybudd

Lleoliadau

Fel rhan o agwedd cyngor gyfan o gynnal yr etholiad, dylech weithio gyda'ch staff i nodi lle gall eich dylanwad helpu i archebu lleoliadau sydd wedi bod yn broblemus yn y gorffennol. Er enghraifft, gall gwneud archeb hwyr ar gyfer defnyddio ysgolion fel gorsafoedd pleidleisio ar ôl i ddiwrnodau HMS gael eu neilltuo greu heriau i'ch staff. Gall mabwysiadu dull hysbysu o'r brig i'r bôn a dylanwadu cyn cyhoeddi'r etholiad helpu i sicrhau yr ymdrinnir â materion yn gynnar.

Dylai eich staff fod wedi pennu cynllun etholiad yn unol ag unrhyw newidiadau i'ch ffiniau seneddol ac wedi nodi gorsafoedd pleidleisio addas, lleoliadau ar gyfer anfon neu agor pleidleisiau post, a dilysu a chyfrif y pleidleisiau.

Dylent gael yn eu lle:

- rhaglen waith ac adnoddau i alluogi bwcio adeiladau ar fyr rybudd
- cynlluniau wrth gefn rhag ofn na fydd lleoliadau ar gael
- opsiynau ar gyfer cyflenwyr adeiladau dros dro
- dealltwriaeth glir o sut y gellir diwygio cynlluniau etholiad ar fyr rybudd, ac unrhyw gynllun dirprwyo

Cyflenwyr a dibyniaethau allanol

Mae dibyniaeth gynyddol ar gyflenwyr allanol ar gyfer cynnal yr etholiad, gan weithio drwy systemau cymhleth sy'n cynnwys nifer o wahanol bartneriaid gan greu risgiau ychwanegol i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol). Mae Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn gwaethygu'r straen ar y cyflenwyr masnachol cysylltiedig, yn enwedig lle mae'r etholiad wedi'i chyfuno neu'n gorgyffwrdd ag etholiadau a drefnwyd. Mae ein canllawiau craidd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn cynnwys mwy ar sut i sicrhau ansawdd gwaith cyflenwyr.

- TG a gofynion technegol

Mae'n bwysig eich bod yn hyderus yn niogelwch, gwytnwch a dibynadwyedd eich systemau TG i helpu i sicrhau eich bod mewn sefyllfa dda i atal unrhyw risg o ymosodiad seiber.

Mae'r System Rheoli Etholiadol y mae eich staff yn ei defnyddio hefyd yn allweddol wrth gyflwyno'r etholiad, mae'r holl brosesau gweinyddol yn cael eu rheoli a'u monitro gan y systemau TG hyn. Mae'n hanfodol bod y System Rheoli Etholiadol yn ddiogel ac yn cael ei gefnogi'n dda o fewn seilwaith TG y cyngor.

Dylai eich tîm fod yn hyderus yn eu defnydd o'u meddalwedd System Rheoli Etholiadol, ac mae'n hanfodol eich bod wedi ymgysylltu â'ch cyflenwr System Rheoli Etholiadol ac wedi cadarnhau y bydd y system yn gallu cyflawni popeth sydd ei angen arnoch i gynnal yr etholiad.

Dylai eich tîm hefyd allu amlinellu'r holl gynlluniau wrth gefn sydd ar waith os bydd unrhyw system yn methu, gan gynnwys cymorth technegol sydd ar waith i ymdrin â materion a

chynlluniau parhad busnes ar gyfer ymdrin â methiannau yn y system yn ystod amserlen etholiad.

- Cyflenwyr argraffu

Mae llawer o bobl eisoes yn dewis pleidleisio drwy'r post ac mae profiad wedi dangos y gall digwyddiadau etholiadol mawr arwain at gynnydd mewn ceisiadau, a gyda'r gallu i wneud cais ar-lein, mae hyn yn debygol o barhau. Mae'n bwysig eich bod yn cynllunio sut y byddwch yn rheoli'r risgiau yn y gadwyn gyflenwi hon er mwyn sicrhau y gellir dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post i bawb sydd wedi gwneud cais llwyddiannus i bleidleisio drwy'r post.

Mae hyn yn cynnwys rheoli contractau argraffu, gan gynnwys ystyried faint o waith etholiadol arall y mae eich cyflenwr yn gyfrifol amdano, cyfyngiadau cyllidebol a threfniadau wrth gefn, yn ogystal â sut mae'r prosesau prawfddarllen a sicrhau ansawdd yn cael eu rheoli, boed yn bersonol neu'n rhithwir.

Bob blwyddyn cawn ein hysbysu am faterion sy'n ymwneud â phrawfddarllen papurau pleidleisio, eu hargraffu a'u dosbarthu, gyda thimau etholiadol yn codi pryderon ynghylch gallu a gwydnwch eu cyflenwyr.

I liniaru yn erbyn y risgiau hynny dylai eich staff allu dangos trefniadau cytundebol clir a llinellau cyfathrebu clir gyda chyflenwyr argraffu.

Dylent allu egluro unrhyw ystyriaethau allweddol sydd ar waith ar gyfer rheoli etholiad cyffredinol Senedd y DU brys a sut y byddant yn gweithio gyda'u hargraffwyr i reoli unrhyw etholiadau eraill a gynhelir naill ai ar yr un pryd neu sy'n gorgyffwrdd.

- Trefniadau dosbarthu post

Fel rhan o'r trefniadau cytundebol sydd ar waith gyda chyflenwyr argraffu, dylai eich staff esbonio sut y maent yn sicrhau y cedwir eich arolygiaeth a rheolaeth dros ddeunyddiau etholiad unwaith y byddant yn y cadwyni cynhyrchu a danfon, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch olrhain anfon a danfon.

Cefnogi cyfranogiad a hyder

Dylai pawb allu cymryd rhan yn yr etholiad a bod yn hyderus gyda'r canlyniad. Fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), mae'n rhan o'ch rôl i sicrhau bod pawb sydd am gymryd rhan yn yr etholiad yn gallu cael mynediad at wybodaeth glir a chymorth i'w galluogi i wneud hynny.

- Ymwybyddiaeth y cyhoedd

Rhaid i chi gymryd unrhyw gamau y credwch sy'n briodol i annog cyfranogiad etholwyr ac wrth gyflawni gweithgaredd o'r fath rhaid i chi ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Etholiadol. Wrth i'r etholiad cenedlaethol cyntaf redeg o dan ddarpariaethau newydd y Ddeddf Etholiad, bydd newidiadau sylweddol i'r broses bleidleisio ar gyfer llawer o bleidleiswyr. Darparwn adnoddau ymwybyddiaeth y cyhoedd i gefnogi dealltwriaeth o'r gofyniad am ID ffotograffig yn ogystal â chanllawiau ar gyfathrebu'r broses bleidleisio a'r cymorth sydd ar gael i bleidleiswyr anabl.

Dylai fod gan eich tîm gynlluniau ymwybyddiaeth y cyhoedd ar waith i helpu i annog cyfranogiad a ddylai gynnwys gweithio'n uniongyrchol gyda chydweithwyr cyfathrebu mewnol fel y bo'n briodol. Os yw eich etholaeth Senedd y DU yn cwmpasu mwy nag un ardal awdurdod lleol, dylai hyn gynnwys cynllun cydgysylltiedig ar gyfer gweithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd sydd wedi'i ddatblygu ar draws yr etholaeth.

- Cefnogi pleidleiswyr anabl

Cyflwynwyd gofynion newydd yn y Ddeddf Etholiadau i Swyddogion Canlyniadau ddarparu offer rhesymol i alluogi neu ei gwneud yn haws i bleidleiswyr anabl fwrw eu pleidlais yn annibynnol ac yn gyfrinachol. Dylech fod yn ymwybodol o'r newidiadau sydd wedi'u rhoi ar waith i ddarparu cymorth gyda phleidleisio i bleidleiswyr anabl i gydymffurfio â'ch dyletswyddau. Dylai hyn gynnwys cynlluniau y mae eich tîm wedi'u datblygu ynghylch darparu offer mewn gorsafoedd pleidleisio.

- Cefnogi ymgeiswyr ac asiantiaid a sicrhau hyder

Er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n dymuno sefyll etholiad yn cael eu cefnogi i wneud hynny, dylai fod gan eich tîm gynlluniau ar waith i gyflwyno sesiynau briffio i ddarpar ymgeiswyr a'u hasiantiaid, yn ogystal â deunydd ysgrifenedig y gellir ei rannu.

Dylai fod gan eich tîm hefyd gynlluniau ar waith ar gyfer sut y caiff y cyfrif ei gyflawni mewn ffordd dryloyw ac amserol er mwyn sicrhau y gall pawb sy'n bresennol fod â hyder yn y broses a'r cyfrif.

Bydd disgwyliad ymhlith ymgeiswyr, pleidiau, a'r cyfryngau y bydd y canlyniadau'n cael eu datgan cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio. Dylai eich tîm allu esbonio sut y maent yn bwriadu rheoli disgwyliadau ymgeiswyr, pleidiau, a'r cyfryngau.

Mae rhagor o wybodaeth am gynllunio ar gyfer gweithgarwch cyfathrebu, cefnogi hygyrchedd, gweithio gydag ymgeiswyr ac asiantiaid a cyflawni'r dilysu a'r cyfrif ar gael yn ein canllawiau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol).